

# Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

## 12. Newid hinsawdd

### 12.10 Newid hinsawdd a thrafnidiaeth



Mae symudedd personol a chludo nwyddau yn rhan anhepgor o fywyd pob dydd ac mae'n gyfrifol am 16.2% o'r holl allyriadau CO2 yng Nghymru. Trafnidiaeth ffordd sy'n cyfrannu fwyaf at allyriadau trafndiaeth, gyda theithio personol â char yn gyfrifol am 63% o hyn.

Mae dwysedd isel poblogaeth Cymru, amrywiadau ei thirwedd, a phoblogaethau tenau cefn gwlad a'r arfordir yn her wrth geisio darparu gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus hyfyw, aml ac uniongyrchol, ac mae hynny'n arwain at ddibyniaeth ar geir. Mae cludo nwyddau'n cyfrif am 33.4% o allyriadau trafndiaeth Cymru. 39

Am gyfeiriadau a gwybodaeth bellach am drafndiaeth ac argymhellion y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy i roi sylw i allyriadau carbon, gweler Rhanbarthau Carbon Isel.

[www.sd-commission.org.uk/data/files/publications/SDC\\_LowCarbonRegions\\_report\\_web.pdf](http://www.sd-commission.org.uk/data/files/publications/SDC_LowCarbonRegions_report_web.pdf)

## Anghyfiawnder trafndiaeth

Bydd mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn golygu y bydd yn rhaid chwyldroi trafndiaeth yn y DU. Bydd yn rhaid i gymdeithas ôl-garbon ddibynnu llawer mwy ar drafndiaeth gyhoeddus, cerdded a seiclo ac ni fydd gan y car le mor flaenllaw wedyn yn ein trefi a'n pentrefi. Bydd datrys y broblem yn gyfle i annog meddwl cydlynus rhwng mudiadau cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol gan fod modd i seilwaith trafndiaeth gyhoeddus, llwybrau beiciau a llwybrau troed hybu cydraddoldeb mewn cymdeithas a helpu'r sawl sy'n byw mewn tloidi. Mae buddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus yn gyfle i sbarduno cylchoedd rhinweddol, gan gael effaith bositif ar iechyd, cymunedau a'r amgylchedd.

Mae miliynau o bobl yn y DU heddiw yn profi anghyfiawnder trafndiaeth. Mae'r anghyfiawnderau'n cynnwys mynediad anghyfartal at waith a chyfleoedd gwaith; brwydr am arian; llai o gyfle i fod yn weithgar a ffit; ac amlygiad anghymesur at lygredd, peryglon y ffordd a swfn.

Ymhlith yr 20 y cant o aelwydydd tlotaf, mae'r rhai sy'n berchen ar gar yn gwario bron i chwarter eu hincwm ar ei redeg. Mae hyn yn cyfrif fel tloidi trafndiaeth er nad oes diffiniad cydnabyddedig o'r cyflwr hwn ar hyn o bryd.

Am ragor o wybodaeth am gyfiawnder trafndiaeth a newid yn yr hinsawdd, gweler dogfen Sustrans:

*Towards Transport Justice : Transport and Social Justice in an Oil-Scarce Future*

[www.sustrans.org.uk/assets/files/Info%20sheets/towards\\_transport\\_justice\\_april08.pdf](http://www.sustrans.org.uk/assets/files/Info%20sheets/towards_transport_justice_april08.pdf)

*Transport and social justice – Taflen Wybodaeth FF45*

[www.sustrans.org.uk/assets/files/Info%20sheets/ff45\\_biling.pdf](http://www.sustrans.org.uk/assets/files/Info%20sheets/ff45_biling.pdf)

## Dewisiadau Teithio Doethach

Mae Atal Anrhefn Hinsawdd Cymru yn cynnig dull i roi sylw i'r angen i newid ein seilwaith trafndiaeth drwy 'Ddewisiadau Teithio Doethach' a rhinweddau'r dull hwnnw.

Am ragor o wybodaeth gweler Cutting Carbon: Creating Jobs

[http://issuu.com/scccymru/docs/scc\\_cutting\\_carbon\\_report\\_final?viewMode=magazine](http://issuu.com/scccymru/docs/scc_cutting_carbon_report_final?viewMode=magazine)

## Cynhwysiant Anabledd

I lawer o bobl anabl a phobl hŷn mae llawer o'n strydoedd a'n trafndiaeth gyhoeddus y tu hwnt i'w cyrraedd, a hynny'n aml am fod manau cyhoeddus a gorsafoedd a cherbydau trafndiaeth gyhoeddus wedi'u dylunio mor wael. Mae angen i unrhyw newid i'n seilwaith trafndiaeth gadw'r materion hyn mewn cof. Am ragor o wybodaeth am broblemau sy'n wynebu pobl anabl a thrafndiaeth, gweler

[www.dft.gov.uk/topics/access](http://www.dft.gov.uk/topics/access)

[www.disabilityalliance.org/surface.htm](http://www.disabilityalliance.org/surface.htm)

Bydd angen ystyried anghenion y bobl sy'n dibynnu ar geir ac a fydd yr un mor ddibynnol arnynt yn ystod neu ar ôl y newid i'r seilwaith, oherwydd diffyg mynediad at drafndiaeth neu anallu i gerdded neu seiclo, megis pobl anabl neu bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, mewn unrhyw bolisiau er mwyn sicrhau na chânt eu heffeithio'n anghymesur gan y newid i drafndiaeth carbon isel.

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu fel arweiniad yn unig. Ni ddylid ei defnyddio ar draul cyngor proffesiynol ac ni allwn gymryd unrhyw gyfrifoldeb am golledion a all ddeillio o ganlyniad i unrhyw unigolyn sy'n gweithredu neu'n peidio gweithredu arni.

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

#### Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 16/03/2012



Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk